# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 Mawrth 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679708** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24** |

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Pwrpas y Cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

3 CYFLWYNIAD

Dyma drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 2012 a'r un canlynol ym mis Mawrth 2016. Mae Cynllun 2020-24 yn adeiladu ar y cynlluniau blaenorol hyn gan adnabod fod dal gwaith craidd i'w wneud i sicrhau cydraddoldeb i bobl gyda'r 9 nodwedd a ddiogelir dan y Ddeddf.

Rhwng Tachwedd 2019 a dechrau Chwefror 2020, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, ymgysylltwyd ar gynnwys arfaethedig y Cynllun. Derbyniwyd 190 ymateb a'r rhan helaethaf ohonynt yn gefnogol i'r amcanion. Hefyd bu cyfarfodydd gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a dau grŵp hunan-adfocatiaeth ar gyfer pobl hefo amhariad dysgu. Mae mwy o wybodaeth am yr ymatebion i'w weld yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

Ar sail y sylwadau a dderbyniwyd rydym wedi addasu'r Cynllun, geiriad dau Amcan a'r Cynllun Gweithredu. Credwn fod y newidiadau hyn yn gwella a chryfhau'r Cynllun fel ein bod yn wir yn gallu symud tuag at sicrhau tegwch i bawb a gwreiddio'r syniad o gydraddoldeb o fewn gwaith y Cyngor.

Mae gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig yn bwysig i ni fel Cyngor gyda phrosiect "Sicrhau Tegwch i Bawb" wedi ei gynnwys yn y fersiwn newydd o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 (fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu ar y 5ed o

Fawrth). Bydd y deilliannau a chanfyddiadau'r prosiect hyn yn sylfaen i'r holl waith sydd i ddod yn y maes i'r dyfodol.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Cynllun yma wedi ei baratoi yn unol â'r ddyletswydd i gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym wedi cynnwys cynrychiolwyr pobl hefo nodweddion cydraddoldeb penodol o'r cychwyn. Rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda'r cyhoedd a gwella'r Cynllun ar sail eu sylwadau gan weld fod y rhan helaethaf o'r ymatebwyr yn cefnogi trywydd y Cynllun. Credir felly fod hwn yn gynllun cryf fydd yn arwain at wella tegwch tuag at bob un o bobl Gwynedd.

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Rydym wedi cynnwys y Grŵp Craidd Cydraddoldeb o gychwyn y broses. Byddwn yn ymgysylltu yn eang os fydd y Cynllun drafft yn cael ei gymeradwyo.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei atodi. Mae ei ganfyddiadau yn cefnogi y cyfeiriad ac nid yw wedi adnabod unrhyw effeithiau negyddol o arwyddocâd.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**i) Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir i fabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024.

Rwyf yn gyfforddus mai cymharol isel fydd cost y cynlluniau gweithredu. Disgwyliaf y bydd modd cwrdd â'r costau hyn o fewn cyllidebau refeniw cyfredol ond os ddim, bydd angen gwneud cais am gyllid ychwanegol trwy'r trefniadau arferol.

**ii) Swyddog Priodoldeb**

Yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb mae angen i'r Cyngor adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb o leiaf pob blynedd. Mae cynnal proses ymgysylltu yn cyfarch gofynion ac egwyddorion statudol ynglŷn a chynnal adolygiad . Mae'n bwysig fod y Cabinet yn bodloni ei hyn fod yr hyn a argymhellir yn cynrychioli ymateb priodol i'r ymgynghoriad Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran priodoldeb.